

## RHANBARTH LLAIS POWYS ADRODDIAD AR YR HYN RYDYM WEDI'I GLYWED YM MHOWYS



**Ymgysylltu â Ffocws Cymunedol yn Ardal  
Llandrindod a Rhaeadr Gwy  
Mehefin 2024**

# FFORMATAU HYGYRCH

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa.

# AMDANO LLAIS



Rydym ni'n credu mewn Cymru iachach lle mae pobl yn cael y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd eu hangen arnyn nhw mewn ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw


Rydym yma i ddeall eich barn a'ch profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol, ac i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn defnyddio'ch adborth i lunio'ch gwasanaethau.

Rydym yn chwilio am straeon da a drwg fel ein bod yn deall beth sy'n gweithio'n dda a sut y gallai fod angen i wasanaethau wella. Ac rydym yn ceisio siarad yn arbennig â'r rhai nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml.

Rydym hefyd yn siarad â phobl am eu barn a'u profiadau trwy gynnal digwyddiadau yn eich cymunedau lleol neu ymweld â chi ble bynnag yr ydych yn derbyn eich gwasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol. Rydym hefyd yn gweithio gyda grwpiau cymunedol a grwpiau â diddordeb ac yn unol â mentrau cenedlaethol i gasglu barn pobl.

A phan aiff pethau o chwith rydym yn eich cefnogi i wneud cwynion.

Mae 7 Rhanbarth Llais yng Nghymru. Mae pob un yn cynrychioli llais "claf a chyhoeddus" mewn gwahanol rannau o Gymru.



# CRYNODEB GWEITHREDOL

Yn ystod mis Mehefin 2024, bu Llais Powys yn ymgysylltu â chymunedau Llandrindod a Rhaeadr Gwy a'r cyffiniau, i ddeall profiadau pobl o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu megis arolygon, ymuno â grwpiau a sefydliadau amrywiol ar gyfer trafodaeth wyneb yn wyneb, ymweld â safleoedd lle darperir gwasanaethau iechyd a gofal a siarad â phobl mewn digwyddiadau cymunedol. Fe wnaethom hefyd gynnal bore coffi am ddim i bobl ddod draw i sgwrsio â ni. Buom yn siarad â phobl o wahanol oedrannau a chyda gwahanol anghenion iechyd a gofal.

## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

- Gofal Eithriadol a Staff Ymroddedig**  
Canmolodd llawer o bobl rai gwasanaethau megis gofal canser, y Clwb Coesau yn Rhaeadr Gwy, Nyrsys Ardal, y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff, a sefydliadau trydydd sector fel MIND Canolbarth a Gogledd Powys, Credu ac RNID. Nodwyd profiadau cadarnhaol hefyd mewn practisau meddygon teulu lleol, fferyllfeydd ac ysbytai.
- Addasiadau Cartref a Thechnolegau Cynorthwyol**  
Roedd preswylwyr hŷn yn gwerthfawrogi addasiadau cartref a thechnolegau a oedd yn eu cefnogi i allu byw yn eu cartrefi eu hunain.
- Heriau Gofal Iechyd Cyffredin ym Mhowys**  
Roedd llawer o'r materion a godwyd yn ardal Llandrindod a Rhaeadr Gwy yn gyson â'r hyn y mae pobl mewn ardaloedd eraill o Bowys wedi'i ddweud wrthym – megis amseroedd aros hir am ofal wedi'i gynllunio, pellteroedd teithio hir i gael mynediad at wasanaethau, anawsterau gyda chludiant, cyfathrebu gwael, diffyg argaeledd rhai gwasanaethau, gyda bylchau penodol mewn gofal deintyddol a

chymorth ar gyfer iechyd meddwl.

4. **Rhaniad Digidol mewn Gwasanaethau Meddygon Teulu**  
Roedd Practis Meddygol Llandrindod wedi cyflwyno system apwyntiadau ar-lein, ond dywedodd rhai pobl ei bod yn anodd ei defnyddio. Codwyd pryderon am bobl na fyddent yn gallu cael mynediad i'r system.
5. **Cefnogaeth i Blant ag Anghenion Niwroddatblygiadol**  
Amlygwyd amseroedd aros estynedig ar gyfer asesiadau, gwasanaethau tameidiog a chyfathrebu gwael. Mynegodd teuluoedd rwystredigaeth ynghylch y diffyg cefnogaeth.
6. **Pryderon am Bractis Meddyg Teulu**  
Clywsom am bryderon a oedd yn cael effaith ar ymddiriedaeth a boddhad cleifion.
7. **Problemau gyda'r newid o People Plus i Waled Rithwir ar gyfer Taliadau Uniongyrchol**  
Clywsom am broblemau a gafodd rhai pobl gyda'r system Waled Rithwir newydd a ddefnyddir i reoli Taliadau Uniongyrchol.

## CAMAU A GYMERWYD

Rydym yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys i sicrhau eu bod yn deall beth mae pobl yn ei feddwl am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn gallu gwneud gwelliannau i wasanaethau lle mae eu hangen.

Ar ôl i ni ddrafftio'r adroddiad yn amlinellu'r hyn a glywsom, cynhaliom weithdy ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd, y Cyngor Sir a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys. Nod y sesiwn oedd amlygu rhai o'r prif themâu, trafod meysydd gwaith sydd eisoes ar y gweill, a nodi ar y cyd rai o'r camau gweithredu fydd yn cael eu cymryd.

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

1. Rhagwelir y bydd porth mynediad digidol newydd fel y gall pobl gofrestru ar y rhestr aros ddeintyddol ar-lein yn mynd yn fyw ym Mhowys ddiwedd Medi 2024.
2. Bydd uned ddeintyddol symudol newydd, a ddarperir gan y Tîm Deintyddol Cymunedol ym Mhowys, yn cael ei gosod yn Y Gelli Gandryll o fis Medi 2024. Bydd hyn yn cynnig apwyntiadau i bobl sydd eisoes ar y rhestr aros ddeintyddol.
3. Bydd Tîm Gofal Sylfaenol y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod practisau meddygon teulu yn cydnabod y bwlch digidol ac yn parhau i gynnig opsiynau dros y ffôn ac yn bersonol i'r bobl hynny nad oes ganddynt fynediad digidol neu sydd ag anghenion cyfathrebu penodol.
4. Bydd staff y Bwrdd Iechyd yn cysylltu â phob teulu sydd ar y rhestr aros am asesiad niwroddatblygiadol ar hyn o bryd. Bydd hyn er mwyn cadarnhau eu bod yn dal ar y rhestr, i ofyn a yw'r sefyllfa wedi newid ac i wirio a oes unrhyw gyfeirio at wasanaethau cymorth a allai fod o gymorth.
5. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu tudalen we am y gwasanaeth niwroddatblygiadol, a fydd yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau cymorth sydd ar gael.
6. Gofynnodd y Cyngor Sir i unrhyw un sydd ag unrhyw anawsterau gyda'r system Waled Rithwir ar gyfer taliadau uniongyrchol gael eu hannog i gysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol fel y gellir datrys problemau cyn gynted â phosibl.

## CASGLIAD

Mae'r ymgysylltiad a gynhaliwyd gan Llais Powys ym mis Mehefin 2024 wedi rhoi mewnwelediad gwerthfawr i brofiadau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedau yn Llandrindod a Rhaeadr. Er bod llawer o

fyfyrdodau cadarnhaol, megis y parch mawr at rai gwasanaethau a staff ymroddedig, roedd heriau cyson, gan gynnwys amseroedd aros hir, problemau mynediad ac anawsterau cyfathrebu, yn amlwg. Mae'r canfyddiadau'n gyson â'r pryderon a godwyd ar draws Powys.

Mae camau gweithredu allweddol, megis porth mynediad deintyddol digidol newydd, uned ddeintyddol symudol, a gwell cyfathrebu a chymorth i deuluoedd sy'n aros am asesiadau niwroddatblygiadol, yn adlewyrchu ymrwymiad cryf i fynd i'r afael â'r materion a godwyd. Mae'r ymdrechion hyn yn arwydd o broses gydweithredol i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i'r gymuned, gan sicrhau bod bylchau'n cael eu cydnabod a'u datrys yn gynyddol. Mae'r bartneriaeth barhaus a'r ymatebolrwydd gan ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol lleol yn dangos llwybr cadarnhaol tuag at wasanaethau gwell, mwy hygyrch i bawb.

**CAMAU GWEITHREDU O'R GWEITHDY  
 YNGHYLCH ADRODDIAD YMGYSYLLTU ARDAL LLANDRINDOD A RHAEDR GWY  
 A GYNHALIWYD AR 6 MEDI 2024**

<b>Camau y cytunwyd arnynt</b>	<b>Cyfrifoldeb</b>	<b>Dyddiad Dilynol</b>
Tîm Gofal Sylfaenol y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod practisau meddygon teulu yn cydnabod y bwlch digidol ac yn parhau i gynnig opsiynau dros y ffôn ac yn bersonol i'r bobl hynny nad oes ganddynt fynediad digidol neu sydd ag anghenion cyfathrebu penodol.	Tîm Gofal Sylfaenol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Adolygu ymhen 6 mis (Mawrth 2025)
Rhagwelir y bydd porth mynediad digidol newydd fel y gall pobl gofrestru ar y rhestr aros ddeintyddol ar-lein yn mynd yn fyw ym Mhowys ddiwedd Medi 2024.	Tîm Gofal Sylfaenol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Adolygu ymhen 6 mis (Mawrth 2025)
Bydd uned ddeintyddol symudol newydd, a ddarperir gan y Tîm Deintyddol Cymunedol ym Mhowys, yn cael ei gosod yn Y Gelli Gandryll o fis Medi 2024. Bydd hyn yn cynnig apwyntiadau i bobl sydd eisoes ar y rhestr aros ddeintyddol.	Tîm Gofal Sylfaenol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Adolygu mewn 3 mis (Rhagfyr 2024)



<p>Bydd y Bwrdd Iechyd yn cysylltu â phob teulu sydd ar y rhestr aros am asesiad niwroddatblygiadol ar hyn o bryd. Bydd hyn er mwyn cadarnhau eu bod yn dal ar y rhestr, i ofyn a yw'r sefyllfa wedi newid ac i wirio a oes unrhyw gyfeiriad at wasanaethau cymorth a allai fod o gymorth.</p>	<p>Gwasanaethau Menywod a Phlant Bwrdd Iechyd Addysgu Powys</p>	<p>Adolygiad mewn 3 mis (Rhagfyr 2024)</p>
<p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol BIAP ar gyfer Gwasanaethau Menywod a Phlant i sicrhau bod ymateb yn cael ei ddarparu i Llais mewn perthynas â'r ymholiad ynghylch anhawster cysylltu â'r Tîm Niwroddatblygiadol.</p>	<p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar gyfer Gwasanaethau Menywod a Phlant</p>	<p><b>Derbyniwyd ymateb ar 10 Medi 2024.</b>  <b>Anfonodd Llais fanylion cyswllt at Grwpiau Mums Matter a Thumbs Up yn Llandrindod 13 Medi 2024</b></p>
<p>Mae BIAP yn datblygu tudalen we am y gwasanaeth Niwroddatblygiadol, a fydd yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau cymorth sydd ar gael.</p>	<p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar gyfer Gwasanaethau Menywod a Phlant</p>	<p>Adolygu ymhen 6 mis (Mawrth 2025)</p>

<p>Anogir unrhyw un sy'n cael problemau gyda Waled Rithwir i gysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol fel y gellir eu datrys.</p>	<p>Dirprwy Gyfarwyddwr Rhanbarthol Llais</p>	<p>Adolygu ymhen 6 mis (Mawrth 2025)</p>
<p>Bydd Cyngor Sir Powys yn rhoi sesiwn frifio a chyflwyniad i Llais i roi trosolwg o beth yw Gwasanaethau Cymdeithasol, beth maent yn ei wneud a sut maent yn ei wneud.</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Powys a Chyfarwyddwr Rhanbarthol Llais</p>	<p>Adolygu ymhen 6 mis (Mawrth 2025)</p>
<p>Bydd Llais yn parhau i chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu â phobl ifanc. Mae cysylltiad eisoes gyda'r Bwrdd Cychwyn Da Iau. Bydd Llais yn cysylltu â Swyddog Cyfranogiad Gwasanaethau Plant y Cyngor Sir.</p>	<p>Dirprwy Gyfarwyddwr Rhanbarthol Llais</p>	<p>Adolygu ymhen 6 mis (Mawrth 2025)</p>
<p>Gwahoddir cynrychiolydd o Adran Addysg y Cyngor Sir i ymuno â'r gweithdai hyn pryd bynnag y bydd elfen addysgiadol o fewn yr adborth mae Llais yn ei dderbyn yn ystod ei gysylltiad lleol.</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Powys</p>	<p>Adolygu ymhen 6 mis (Mawrth 2025)</p>

# DIOLCH

Diolchwn i bawb a roddodd o'u hamser i rannu eu barn a'u profiadau gyda ni am eu gwasanaethau iechyd a gofal ac i rannu eu syniadau.

Gobeithiwn fod yr adborth y mae pobl wedi'i gymryd o'u hamser i'w rannu yn dylanwadu ar wasanaethau gofal iechyd i gydnabod a gwerthfawrogi'r hyn y maent yn ei wneud yn dda - a chymryd camau lle mae angen iddynt wneud cyn gynted ag y gallant i wella pethau.

## MANYLION CYSWLLT

RHANBARTH LLAIS POWYS,  
LLAWR GYNTAF, NEUADD BRYCHEINIOG,  
FFORDD CAMBRIAN,  
ABERHONDDU, POWYS,  
LD3 7HR.

FFÔN: 01874 624206  
E-BOST: POWYSENQUIRIES@LLAISCYMRU.ORG  
GWEFAN: WWW.LLAISCYMRU.ORG  
FACEBOOK: @LLAISPOWYS  
TWITTER: LLAIS\_WALES

LLAWR GYNTAF,  
TŶ LADYWELL,  
Y DRENEWYDD, POWYS,  
SY16 1JB.

FFÔN: 01686 627632

## ADBORTH

Byddem wrth ein bodd yn clywed eich barn am y cyhoeddiad hwn, ac unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gallem fod wedi'i wella, fel y gallwn ei ddefnyddio i wneud ein gwaith yn y dyfodol yn well.